

Ysgol Busnes
Gwerth
Cyhoeddus

# Rhaglenni MBA Ysgol Busnes Caerdydd

2024/25

# Croeso

**Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau eich bod yn cael y profiad gorau ar eich cwrs MBA, fel y gallwch wneud cyfraniad cadarnhaol i'r byd o'ch cwmpas yn ystod eich astudiaethau a’r tu hwnt.**

Yn Ysgol Busnes Caerdydd, cewch addysg MBA fydd yn trawsnewid eich gyrfa, addysg sydd wedi’i lywio gan academyddion mwyaf blaenllaw y byd ac arweinwyr busnes sydd â safbwyntiau gwahanol. Bydd ein rhaglenni MBA, sydd wedi'u hachredu gan yr Association of MBAs (AMBA), yn herio'ch ffordd o feddwl wrth i chi ystyried y byd busnes o amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol.

Byddwch yn datblygu cymuned gydol oes o gymheiriaid, yn dod yn rhan o rwydwaith busnes elît yr ysgol ac yn cael mynediad unigrywi gynghorwyr blaenllaw mewn diwydiant, gan gynnwys aelodau o'n Bwrdd Cynghori Rhyngwladol ac Entrepreneuriaid Preswyl.

Credwn fod busnes **yn gyfystyr â** chymdeithas. Mae hyn yn golygu ein bod yn canolbwyntio ar sut i arwain sefydliadau wrth iddynt fynd i’r afael â chyfres o heriau mawr, megis yr argyfwng hinsawdd, newid technolegol, anghydraddoldeb a’r adferiad economaidd ôl-COVID-19.

Byddwch yn cael eich annog i sicrhau bod busnes nid yn unig yn effeithiol, ondyn cael ei arwain gan werthoedd, yn bwrpasol ac yn rym er gwell.

Mae eich MBA yn pwysleisio creadigrwydd ac arloesedd, fel y gallwch ddatblygu'r sgiliau entrepreneuraidd i ragweld, cynllunio ac arwain newid – p'un a ydych am fod yn arloeswr o fewn busnes neu sefydlu eich menter gymdeithasol eich hun.

Mae ein rhaglenni MBA wedi'u cynllunio gyda'ch dyfodol mewn golwg. Mae eich hyfforddwr gyrfa personol yn barod i wrando, rhoi cyngor a'ch galluogi i gyflawni eich dyheadau.

Fel aelod o garfan MBA a achredwyd gan AMBA, byddwch hefyd yn gallu llunio eich profiad addysg eich hun drwy berthynas adborth barhaus fydd gennych ag uwch-dîm rheoli'r ysgol.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn ymuno â ni yng Nghaerdydd yn fuan, gobeithio.

**Yr Athro Rachel Ashworth**
Deon Ysgol Busnes Caerdydd



## CYNNWYS


**03** Ysgol fusnes gyda phwrpas
**04** Yr hyn rydyn ni’n sefyll drosto
**06** Eich mantais busnes
**09** MBA Caerdydd
**14** Yr hyn rydyn ni’n sefyll drosto
**16** MBA gyda Deallusrwydd Artiffisial
**18** Yr hyn rydyn ni’n sefyll drosto
**20** Caerdydd: dinas cyfle
**21** Caerdydd: y brifysgol
**22** Byw yng Nghaerdydd
**23** Myfyrwyr rhyngwladol
**24** Opsiynau astudio eraill
**25** Eich camau nesaf





# Rydyn ni’n sefyll dros_ gyfrifoldeb

“Heddiw, rydym yn wynebu angen dybryd am newid ar lefel fyd-eang. Fodd bynnag, mae’n wir mai ar y lefel leol, unigol y gallwn ni wneud cyfraniad yn ein ffordd gadarnhaol ein hunain. Rwy'n credu bod gan bob un ohonom ni gyfrifoldeb i wneud hyn. Mae cysylltu pethau ar lefel fyd-eang â phethau ar lefel leol yn ein helpu i ddeall sut.”

**Yr Athro Peter Wells**
Y Rhag Ddeon ar gyfer Gwerth Cyhoeddus

↘ **Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** cardiff.ac.uk/publicvalue

# Ysgol fusnes â phwrpas

Yn Ysgol Busnes Caerdydd, mae ein diben yn glir – cael effaith gadarnhaol ar y byd. Ein hethos yw dod â dynoliaeth, cynaliadwyedd, haelioni a dewrder i bopeth a wnawn.

**Rydyn ni'n deall bod busnesau a sefydliadau yn wynebu newid sy'n digwydd ar gyflymder a graddfa digynsail, a bod angen arweinwyr busnes arnynt sydd â sgiliau cymdeithasol ymwybodol, gwybodaeth a phrofiad . Mae angen pobl arnynt sydd ag empathi a sensitifrwydd i werthoedd a chredoau amrywiol.**

Rydyn ni'n cael ein hysbrydoli gan ein cyfrifoldeb tuag at genedlaethau'r dyfodol.

Rydyn ni'n dathlu ein dyletswydd i gymunedau lleol a ledled y byd.

Rydyn ni'n hyrwyddo economïau bywiog, arloesol a chynaliadwy.

### RYDYN NI'N GALW HYN YN WERTH CYHOEDDUS. DYMA EIN DIBEN NI.

Mae ein myfyrwyr – chi – yn ganolog i'r ethos hwn. Fel arweinwyr ac arloeswyr y dyfodol, byddwch chi'n mynd ymlaen i drawsnewid y byd er gwell. Byddwn ni'n sicrhau bod gennych yr offer, y technegau a'r agweddau sydd eu hangen i wneud y newidiadau hyn.

Mae ein hymchwil yn allweddol i'n llwyddiant, ac yn canolbwyntio ar helpu i ddatrys problemau byd-eang pwysig. Mae'r ymchwil hon yn sail i'n haddysgu, a bydd yn rhoi mewnwelediad i chi i'r datblygiadau diweddaraf. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar bum her fawr:

- gwaith teilwng
- economïau teg a chynaliadwy
- sefydliadau'r dyfodol
- llywodraethu da
- arloesedd cyfrifol

Rydyn ni'n parhau i fod ar flaen y gad o ran y materion hyn drwy gydweithio â sefydliadau sy'n amrywio o gwmnïau rhyngwladol mawr i elusennau lleol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, busnesau entrepreneuraidd newydd ac asiantaethau'r llywodraeth.

Rydyn ni'n defnyddio'r rhwydweithiau hyn i gyflawni gwerth i chi drwy'r canlynol:

- lleoliadau a phrosiectau yn y byd go iawn
- dysgu cydweithredol cymar wrth gymar a gwaith grŵp
- cydweithio â'n Hentrepreneuriaid Gwerth Cyhoeddus Preswyl
- darlithoedd a seminarau gwadd gydag arweinwyr busnes
- teithiau maes a gweithdai

Byddwn ni'n eich ysbrydoli i fynd allan i'r byd yn llawn bywiogrwydd, egni ac optimistiaeth, gydag awydd i adael eich ôl, yr hyder i ysgogi newid a'r sgiliau i'w wireddu.

I lawer o'n myfyrwyr, nid yw graddio'n golygu diwedd ein perthynas, ond yn hytrach yn ddechrau taith gydol oes o ddysgu ar y cyd o fewn cymuned o lysgenhadon gwerth cyhoeddus.

Ni allwn ni wneud hyn heboch chi.
Gyda'n gilydd gallwn ni wneud gwahaniaeth.

**Yr Athro Peter Wells**
Y Rhag Ddeon ar gyfer Gwerth Cyhoeddus



# Rwy'n sefyll dros_ ymddiriedaeth

"Mae angen i ni herio safbwyntiau traddodiadol ar sut i gynnal a gwerthuso gweithgareddau busnes. Fel addysgwr, rwy'n ymdrechu i sicrhau bod ein myfyrwyr yn dechrau o safbwynt lle mae moeseg, uniondeb ac ymddiriedaeth yn cael eu hystyried yn adnoddau hanfodol."

**Dr Svetlana Mira**
Uwch-ddarlithydd mewn Cyllid

↘ **Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** cardiff.ac.uk/mba



# Rwy'n sefyll dros_ gynhwysiant ariannol

"Mae anghydraddoldeb economaidd yn cynyddu ledled y byd. Gallai gwella lefelau llythrennedd ariannol fod yn allweddol i greu cymdeithas decach a mwy cynhwysol. Mae grymuso pobl i wneud penderfyniadau ariannol da yn helpu cymunedau ehangach i ffynnu."

**Yr Athro Arman Eshraghi**
Athro Cyllid a Buddsoddi

↘ **Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** cardiff.ac.uk/mba

# Eich mantais busnes

Yr hyn sy'n ein gosod ar wahân yw ein gwerthoedd, ond pan fyddwch chi'n ymuno â ni yn Ysgol Busnes Caerdydd, gallwch hefyd ddisgwyl addysgu o'r safon uchaf, wedi'i lywio gan ymchwil o'r radd flaenaf.

## RHAGORIAETH BUSNES

Rydyn ni'n ymgyrraedd at ragori ar draws ein gweithgareddau ymchwil, addysgu ac ymgysylltu.

Mewn cydnabyddiaeth o hyn, rydyn ni wedi cael ein hachredu gan yr Association of MBAs (AMBA), sef un o awdurdodau mwyaf blaenllaw y byd ym maes addysg fusnes ôl-raddedig. Cawsom ein hail-achredu'n llwyddiannus hefyd gan y Gymdeithas er Hyrwyddo Ysgolion Busnes Colegol (AACSB) yn 2023. Mae'r achrediadau hyn yn ddilysnod o ragoriaeth ar gyfer ysgolion busnes gorau'r byd, ac yn arddangos y profiad academaidd o'r radd flaenaf rydych chi wedi'i gael wrth i chi fynd ymlaen i wneud gwahaniaeth yn eich gyrfa broffesiynol.

## RHAGORIAETH YMCHWIL

Rydyn ni'n cynnal gwaith ymchwil blaengar, gan sicrhau eich bod yn dod i gysylltiad â'r syniadau a'r damcaniaethau diweddaraf. Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, gwnaethon ni gyflawni'r canlynol:

- Y sgôr **uchaf** bosibl ar gyfer amgylchedd ymchwil
- **Ail** ymhlith 108 o ysgolion busnes y DU ar gyfer pŵer ymchwil.

## BUSNES, DIWYDIANT A'R TU HWNT

Rydyn ni'n gweithio gydag ystod o wahanol randdeiliaid i gynyddu ein cyfraniad i gymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i'r eithaf.

Rydyn ni wedi hyfforddi arweinwyr yn y GIG i wneud cronfeydd ariannol yn fwy cynaliadwy ar gyfer heriau economaidd yn y dyfodol a chymryd rhan mewn partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth gyda Panalpina i ragweld y galw am stoc a hwyluso'r gwaith o leihau stoc.

Mae creu cysylltiadau fel y rhain yn golygu bod ein myfyrwyr yn y sefyllfa orau bosibl ar gyfer ymgymryd â phrosiectau busnes byw wrth ymestyn a gwella eu rhwydweithiau proffesiynol.

## MENTER

Rydym yn un o blith nifer bach o ysgolion ledled y DU ac Iwerddon sydd wedi derbyn wobr uchel ei pharch  y Siarter Busnes Bach. Mae'r nod barcud cenedlaethol yn cydnabod ysgolion busnes sy'n gallu dangos eu bod yn rhagori o ran annog menter ymhlith myfyrwyr, cymryd ran yn yr economi leol, a chefnogi busnesau.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn**
caerdydd.ac.uk/cy/business-school

## EICH BYWYD FEL MYFYRIWR

Mae ein buddsoddiad mewn cyfleusterau astudio, cymorth a chymdeithasol yn golygu y cynigir yr amgylchedd gorau posibl i chi lwyddo ynddo.

- **Cynghorydd Cefnogi Myfyrwyr pwrpasol**
- **Ymgynghorydd Gyrfaol a chyfleoedd datblygiad proffesiynol wedi'u personoleiddio.**
- **Rhaglen Datblygu Arweinwyr bwrpasol, hollgynhwysol**

Mae gennym gyfleusterau rhagorol ar draws tri adeilad:

- **yr ystafell fasnachu fwyaf yng Nghymru**
- **cronfeydd data ariannol blaenllaw: Bloomberg a Refinitiv Datastream**
- **system fasnachu electronig TRETS**
- **y platfform Finance Lab Professional gan Global Investor Simulations**
- **Ystafell Gyffredin MBA pwrpasol**
- **siop goffi**

ASSOCIATION OF MBAs ACCREDITED










Mae ein diben Gwerth Cyhoeddus yn golygu ein bod yn ffurfio partneriaethau ac yn cydweithio â sefydliadau yn y sectorau busnes, diwydiant a llywodraeth a sectorau y tu hwnt, gan gynnwys:

- **Anti-Slavery International**
- **Busnes yn y Gymuned**
- **Yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrru a Cherbydau**
- **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
- **Sefydliad y Cyfarwyddwyr**
- **Y Groes Goch Ryngwladol**
- **Trysorlys EF**
- **Y Sefydliad Cyflog Byw (LWF)**
- **Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol**
- **Ocado**
- **Swyddfa Ystadegau Gwladol**
- **DSV**
- **Social Enterprise UK**
- **Llywodraeth y DU**
- **Yeo Valley**



# Rwy'n sefyll dros_ gyfiawnder cymdeithasol

"Yn aml nid yw arferion cyfrifyddu a threthu mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol ac amgylcheddol presennol, megis anghydraddoldeb cyfoeth, camwahaniaethu yn erbyn pobl, a newid hinsawdd. Mae'n bwysig i ymchwil sydd â phersbectif beirniadol nodi ble mae angen i amcanion polisi a chamau gweithredu newid ar gyfer yr hirdymor er mwyn sicrhau cymdeithas decach."

**Carla Edgley**
Darllenydd mewn Cyfrifyddu a Chyllid

↘ **Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** cardiff.ac.uk/mba

Cyflymu dilyniant eich gyrfa gyda chyfnod astudio â ffocws a datblygiad personol.

# MBA Caerdydd

**Ydych chi'n weithiwr proffesiynol uchelgeisiol sy'n ceisio symud ymlaen at swydd ar lefel uwch-arweinyddiaeth a gyrru newid cadarnhaol ym maes busnes? Os yw hyn yn swnio fel chi, byddai dilyn rhaglen MBA Caerdydd yn gam nesaf gwych.**

Beth bynnag yw eich cefndir fel rheolwr, rydym yn cynnig profiad heriol a fydd yn eich ymestyn ac yn eich cefnogi, yn datblygu eich gwybodaeth am fusnes, yn gwella eich hunanymwybyddiaeth ac yn mireinio eich gallu fel arweinydd effeithiol ac ysbrydoledig ar hyd y ffordd.

Manteisiwch ar y cyfle hwn i ffynnu ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol profiadol sydd o'r un anian â chi wrth ystyried effeithiau masnachol, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach penderfyniadau ar fusnes byd-eang.

# Meistr mewn Gweinyddu Busnes

## PROFIAD DYSGU UNIGRYW: NODWEDDION PENODOL RHAGLEN MBA CAERDYDD

- **Camwch i mewn** i'r rhaglen a'r gymuned ddysgu, gyda rhaglen ymgynefino ac adeiladu tîm sydd wedi'i chreu yn arbennig.
- Defnyddiwch y **Gwasanaeth Mantais Gyrfa,** mae Ymgynghorydd Gyrfa a hyfforddwr personol ar gael i chi i ddarparu datblygiad proffesiynol personol.
- Ar ein **Rhaglen Datblygu Arweinwyr** bwrpasol, gynhwysol, gallwch asesu eich gallu i arwain, llunio lwybr datblygiad personol a meithrin sgiliau arwain allweddol.
- Manteisiwch ar **Gysylltiadau Caerdydd**; dewch yn rhan o'r gymuned fusnes drwy ddigwyddiadau rhwydweithio, mynediad i arweinwyr busnes a chyn-fyfyrwyr.
- Archwiliwch **themâu cyfun cyfoes** sy'n gyffredin i'r holl fodiwlau, megis dyfodol gwaith, arwain yn gyfrifol a thrawsffurfio digidol.
- Gwnewch y gorau o gyfleoedd i **wneud gwahaniaeth** yn y gymdeithas a'r economi drwy astudio a gweithgareddau allgyrsiol, gan greu gwerth cyhoeddus.
- Gallwch atgyfnerthu eich dysgu a'ch profiadau proffesiynol drwy'r **Prosiect Cyflymu** – sef ymateb i broblem gymhleth, amlochrog a gan gleient busnes.
- Astudiwch ochr yn ochr â chyflogaeth trwy'r rhaglen rhan-amser.

### CIPOLWG

**HYD YR ASTUDIAETHAU**

1 flwyddyn llawn-amser / 2 flynedd rhan-amser

**GOFYNION MYNEDIAD**

**Gradd:** Gradd 2:1 o leiaf o brifysgol gydnabyddedig, ac o leiaf tair blynedd o brofiad gwaith perthnasol. O dan amgylchiadau penodol, bydd modd ystyried ymgeiswyr heb radd a chanddynt gymwysterau proffesiynol cymeradwy neu brofiad sylweddol.

**IELTS:** 7.0 gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori (neu gymhwyster cyfwerth).

**Y broses ddethol neu gyfweld:** Byddwn ni'n cyfweld â'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer, naill ai'n wyneb yn wyneb neu drwy alwad fideo, er mwyn gweld faint o brofiad sydd ganddynt, a ydynt yn addas i'r rhaglen a pha mor gryf yw eu cymhelliant.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** caerdydd.ac.uk/mba







# Bydd MBA Caerdydd yn eich helpu i wneud gwahaniaeth

Gallwch addasu eich rhaglen MBA, sef chwe modiwl sy'n canolbwyntio ar her. Mae'r modiwlau wedi'u cynllunio i fod yn hyblyg er mwyn cyd-fynd â'ch dyheadau gyrfa.

Rydyn ni wedi strwythuro'r rhaglen i'ch helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyfannol o heriau busnes cyfoes mewn byd sy'n fwyfwy rhyng-gysylltiedig, rhyngddibynnol ac ansicr.

Yn seiliedig ar senarios yn y gweithle, mae'r heriau'n cynnwys y cyfle i arbenigo a chanolbwyntio mewn maes y gall fod yn arbennig o berthnasol ich trywydd gyrfa eich hun.

## MODIWLAU

**Heriau Byd-eang a Gwneud Penderfyniadau Strategol**

Bydd y modiwl hwn yn ymestyn eich dealltwriaeth o gyd-destunau amrywiol sy'n newid yn gyflym ac yn eich cyflwyno i'r ffyrdd y mae heriau byd-eang fel cynaliadwyedd, tlodi, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithio ar opsiynau strategol.

**Safbwyntiau Pobl**

Ffocws y modiwl hwn yw cynyddu eich gallu i ddeall cyfraniadau a disgwyliadau gweithwyr a chwsmeriaid. Byddwch yn archwilio sut y gall meithrin cydberthnasau effeithiol gyda phob un o'r grwpiau rhanddeiliaid pwysig ond cymhleth hyn helpu i gyflawni canlyniadau strategol.

**Dadansoddeg Ariannol a Busnes**

Mae'r mewnwelediadau gweithredol hyn yn allweddol o ran gwneud penderfyniadau rheoli gwybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r modiwl hwn yn datblygu eich dull o ymdrin â phenderfyniadau o'r fath drwy archwilio diben, llif a dadansoddi data perthnasol o fewn sefydliad.

**Creadigrwydd, Arloesi a Menter**

Yn y modiwl hwn byddwch yn archwilio ffyrdd o ymgorffori creadigrwydd ac arloesi yn y broses o ddatblygu cyfleoedd busnes newydd. Byddwn yn annog eich gallu entrepreneuraidd i wynebuystod amrywiol o heriau.

**Wynebu Heriau Mawr**

Mae nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (e.e. cynaliadwyedd, lleihau tlodi, cydraddoldeb ac amrywiaeth) wrth wraidd y modiwl hwn. Bydd senarios byw a deinamig yn eich herio i ddatblygu ffyrdd newydd o feddwl a gweithio i gofleidio ac integreiddio safbwyntiau lluosog.

**Arwain Newid a Thrawsnewid y Dyfodol**

Yn y modiwl hwn, bydd efelychiad rheoli argyfwng yn gofyn i chi ystyried agweddau lluosog ar yr heriau presennol ym maes arweinyddiaeth a rhagweld y dirwedd yn y dyfodol a'r newid trawsnewidiol sydd ei angen i ymdrin â hyn.

**Y Prosiect Sbarduno**

Fel rhan o grŵp, byddwch yn ymgymryd â phrosiect terfynol yn y byd go iawn a'i gwblhau mewn partneriaeth â chleient corfforaethol i ddatblygu atebion i fater strategol arwyddocaol. Bydd myfyrdod unigol 1,500 gair yn eich galluogi i edrych yn ôl dros y rhaglen gyfan a gweld pa mor bell rydych chi wedi dod.

## RHAGLEN DATBLYGU ARWEINYDDIAETH

Trwy'r rhaglen i gyd, defnyddir pecyn ategol o weithgareddau a ddarparwyd gan Raglen Datblygu Arweinyddiaeth yr MBA. Mae'r gweithgareddau hyn yn ymdrin yn uniongyrchol â'r medrau personol a phroffesiynol y bydd eu hangen arnoch chi i ateb pob her yn effeithiol a mynd ymlaen i gam nesaf eich gyrfa. Bydd ffocws penodol ar fod yn wydn, yn ddyfeisgar, yn gyfrifol ac yn berthynol.

# Asesiad sy'n canolbwyntio ar her

Mae MBA Caerdydd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â heriau'r byd go iawn, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y ffordd rydyn ni'n asesu eich gwaith.

### 01
### Yr Efelychydd Strategaeth Fusnes

Byddwch yn cyflawni rôl uwch-aelod o fwrdd rheoli a phrofi'r heriau a'r cyfleoedd o redeg cwmni.

### 02
### Yr Her Pobl

Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm ymgynghori ac yn cefnogi sefydliad i fynd i'r afael ag amrywiaeth o heriau personél sy'n gysylltiedig â datblygu sefydliadol.

### 03
### Yr Her Ymgynghoriaeth Ryngwladol

Byddwch yn ymateb i friff gan uwch-reolwyr sy'n nodi cyfres o heriau sy'n ymwneud â materion ariannol a llywodraethu, mewn cyd-destun rhyngwladol.

### 04
### Yr Her Arloesedd

Byddwch yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth fenter ddwys wythnos o hyd, lle byddwch yn defnyddio dull creadigol o feddwl i ddatblygu atebion busnes newydd ac effeithiol i amrediad o heriau amserol.

### 05
### Yr Her Fawr

Byddwch yn archwilio ac addasu eich arddull a'ch ymddygiadau arwain eich hun i weithio fel rhan o dîm mewn cyd-destunau newydd ac anghyfarwydd.

### 06
### Yr Her Efelychu Argyfwng

Byddwch yn gweithio mewn tîm i reoli sefyllfa argyfwng gan ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau rydych chi wedi'u datblygu hyd yn hyn.

**Gan adlewyrchu'r gweithle, byddwch yn gweithio'n unigol ac fel rhan o dîm i gwblhau'r tasgau asesu ac yn defnyddio dulliau busnes nodweddiadol i gyflwyno eich canfyddiadau, gan gynnwys cyflwyniadau llafar ac adroddiadau ysgrifenedig.**

**↘ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn**
cardiff.ac.uk/mba

# Ein dull dysgu gweithredol

**Rydyn ni o’r farn bod dysgu effeithiol yn seiliedig ar ddau beth: eich bod yn cymryd rhan mewn profiadau amrywiol a heriol, a’r ffordd rydych chi’n gwneud synnwyr o’r profiadau hyn, yn unigol a gydag eraill.**

O gofio hynny, cyflwynir cwrs MBA Caerdydd mewn blociau trochol sydd wedi’u cynllunio i ysgogi eich chwilfrydedd, llywio eich dull o ymholi a chryfhau’r ffordd rydych chi’n cymhwyso’r hyn rydych chi’n ei ddysgu. Fe welwch chi bod pob bloc dysgu yn cynnwys amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau sy’n cynnwys ymweliadau a chwmnïau, siaradwyr gwadd o ddiwydiant, heriau â therfyn amser, sefyllfaoedd chwarae rôl ac efelychiadau.

Mae’r amrywiaeth ymhlith ein carfan o fyfyrwyr a’n staff academaidd yn ased go iawn. Bydd cyfleoedd i gydweithio â chymheiriaid, academyddion ac ymarferwyr er mwyn herio’r strwythurau gwybodaeth, y rhagdybiaethau, a’r gwerthoedd a’r sgiliau rydych chi eisoes wedi’u datblygu yn eich helpu i ailystyried eich dealltwriaeth bresennol ac archwilio materion o safbwyntiau gwahanol.










# Rwy’n sefyll dros_ bwrpas

“Fel rheolwr pobl, fy man cychwyn bob amser yw ceisio cysylltu pwrpas yr unigolyn â phwrpas y sefydliad. Pan fo cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt, mae ein canlyniadau’n well a’n pobl yn hapusach o ganlyniad.”

**Nigel Williams**
Gweinyddu Busnes (MBA 2022)

↘ **Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** cardiff.ac.uk/mba



# Rwy’n sefyll dros_ ddiogelwch yn y gwaith

“Dylai’r gweithle fod yn lle diogel. Mae angen i bobl allu dod i'r gwaith a defnyddio’u sgiliau, boed hynny'n golygu eu sgiliau creadigol, sgiliau arloesi, sgiliau dadansoddi neu sgiliau trin data. Mae angen llawer o wahanol fathau o bobl arnom ac iddynt deimlo'n ddiogel er mwyn llwyddo.”

**Bethany Brown**
Rheoli Busnes gyda Lleoliad Proffesiynol (MSc 2021)

↘ **Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** cardiff.ac.uk/mba

# Meistr Gweinyddu Busnes gyda Deallusrwydd Artiffisial

**Cyflwynir y rhaglen hon mewn cydweithrediad â'r Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg. Mae'r cwrs MBA Caerdydd gyda Deallusrwydd Artiffisial yn cyfuno cydrannau craidd MBA Caerdydd gyda'r cyfle i ddeall datblygiadau diweddar ym maes deallusrwydd artiffisial (AI), cloddio data a dysgu peirianyddol.**

Byddwch yn datblygu sylfaen gadarn ym maes rheoli busnes ac ymwybyddiaeth o'r heriau o ran cymhwyso deallusrwydd artiffisial mewn busnes. Byddwch yn elwa ar addysgu a gyflwynir gan ymarferwyr academaidd arbenigol yn seiliedig  ar y damcaniaethau diweddaraf ac wedi'i llywio gan enghreifftiau a phrofiadau ymarferol o'r byd go iawn.

Cewch y cyfle i werthuso sut mae deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio mewn busnes ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol o'r un anian, ac arddangos yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu drwy gydweithio ar gyfres o senarios byw a fydd yn herio ac yn datblygu ffyrdd newydd o feddwl am gynulleidfaoedd penodol ac o weithio gyda nhw.

## BYDD Y CWRS MBA CAERDYDD GYDA DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL YN EICH HELPU I ADAEL EICH ÔL.

Mae deallusrwydd artiffisial, cloddio data a dysgu peirianyddol yn gynyddol gyffredin yn ein bywydau bob dydd, ac mae diwydiannau'n eu defnyddio mewn mesysdd yn cynnwys canfod twyll, dadansoddi fforensig a chefnogi penderfyniadau meddygol.

Byddwch yn datblygu eich sgiliau i ateb y galw am reolwyr effeithiol sydd â gwybodaeth a galluoedd datblygedig er mwyn ymateb i anghenion esblygol busnesau y byd sydd ohoni.

Bydd ein modiwlau seiliedig ar her, sydd wedi'useilio ar sefyllfaoedd traws-swyddogaethol a gweithredol sy'n nodweddiadol o'r hyn a all godi yn y gweithle, yn darparu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen arnoch i fod yn arweinydd ysbrydoledig ym maes technolegau digidol.

## CIPOLWG

### HYD YR ASTUDIAETHAU

1 flwyddyn llawn-amser

### GOFYNION MYNEDIAD

**Gradd:** Gradd 2:1 o leiaf o brifysgol gydnabyddedig, ac o leiaf tair blynedd o brofiad gwaith perthnasol. O dan amgylchiadau penodol, bydd modd ystyried ymgeiswyr heb radd a chanddynt gymwysterau proffesiynol cymeradwy neu brofiad sylweddol.

**IELTS:** 7.0 gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori (neu gymhwyster cyfwerth).

**Y broses ddethol neu gyfweld:** Byddwn ni'n cyfweld â'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer, naill ai'n wyneb yn wyneb neu drwy alwad fideo, er mwyn gweld faint o brofiad sydd ganddynt, a ydynt yn addas i'r rhaglen a pha mor gryf yw eu cymhelliant.

↘ **Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** caerdydd.ac.uk/mba

## MODIWLAU

Byddwch chi'n astudio'r un modiwlau â myfyrwyr ar raglen MBA Caerdydd, ac eithrio'r modiwl Wynebu Heriau Mawr. Yn hytrach, byddwch chi'n cwblhau modiwl arbenigol, sef Deallusrwydd Artiffisial a Dysgu Peirianyddol, a gyflwynir gan yr Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg.

Bydd y modiwl hwn yn eich cyflwyno i dechnegau a chymwysiadau deallusrwydd artiffisial, cloddio data a dysgu peirianyddol o fewn meysydd busnes sy'n dod i'r amlwg. Byddwch chi'n gwerthuso'n feirniadol sut mae deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio ym maes busnes, y posibiliadau y gellir esgor arnynt a'r cyfaddawdau y mae'n rhaid eu gwneud. Byddwch chi'n defnyddio meddalwedd a llyfrgelloedd cloddio data a dysgu peirianyddol i wneud eich gwaith dadansoddi data eich hun a gwneud argymhellion ar sail y canfyddiadau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am fodiwlau MBA Caerdydd, a'r heriau asesu sy'n cyd-fynd â nhw, ar dudalennau 11 a 12.


## YSGOL CYFRIFIADUREG A GWYBODEG

**£39 miliwn**

**Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn yr adeilad Abacws blaengar, gwerth £39 miliwn,** ac mae'n gartref i'n labordai a'n cyfleusterau o'r radd flaenaf

**100+**

**Cydweithio â dros 100 o** bartneriaid academaidd a diwydiannol rhyngwladol ac o'r DU





# Rwy’n sefyll dros_ gydraddoldeb rhywedd

“Nid i fenywod mewn busnes yn unig y mae cydraddoldeb rhywedd yn bwysig. Mae cwmnïau sy’n cynnwys arweinwyr cynhwysol ac amrywiol hefyd yn gwneud penderfyniadau gwell. Maent ynfwy llwyddiannus ac yn helpu i greu cymdeithas decach a gwell.”

**Apoorva Shridhar**
Gweinyddu Busnes (MBA 2022)

↘ **Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** cardiff.ac.uk/mba



# Rwy’n sefyll dros_ ddiben sy’n uno

“Ar hyn o bryd, y diben sy’n uno yn y byd yw elw. Os ydyn ni, fel unigolion, ac fel sefydliadau, yn datblygu dealltwriaeth unedig o rywbeth sy’n fwy gwerthfawr i’r byd nag elw, yna mae’n bosibl y gallwn gywiro ein trywydd presennol.”

**Steve Whitlock**
Gweinyddu Busnes (MBA 2022)

↘ **Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** cardiff.ac.uk/mba



# Caerdydd: dinas cyfle

**A hithau'n ddynamig, cyfoes a hawdd mynd o'i chwmpas, mae ein dinas yn lle rhagorol i fyw, gweithio ac astudio ynddo. Mae Caerdydd yn llawn cymeriad, treftadaeth ac uchelgais, ac mae'n cynnig y gorau o ddau fyd: mae'n cyfuno holl fanteision lleoliad cryno, cyfeillgar a fforddiadwy â'r cyfleusterau diwylliannol a hamdden y byddech chi'n eu disgwyl gan brifddinas fodern.**

Mae'r miloedd o fyfyrwyr sy'n dewis gwneud Caerdydd yn gartref iddynt bob blwyddyn yn rhan o guriad calon y ddinas, ac yn gwella ei diwylliant cyfoethog ac amrywiol. Cyfeillgar, croesawgar a chynhwysol – mae Caerdydd yn brifddinas sydd â theimlad cymunedol. Ni waeth pwy ydych chi, gallwch fod yn chi eich hun yma.

**"Mae dinas fywiog Caerdydd wedi tyfu'n rhyfeddol o fod yn dref fawr i fod yn ddinas wirioneddol ryngwladol, gyda datblygiadau enfawr yng nghanol y ddinas yn ogystal ag ar hyd y glannau ar eu newydd wedd. Gydag enw am fod yn lle da i loddesta, ynghyd â llawer o atyniadau chwaraeon a diwylliannol o'r radd flaenaf, mae'n un o gyrchfannau mwyaf deniadol y DU."**

ROUGH GUIDES, 2022

# Caerdydd: y brifysgol

Mae gan Brifysgol Caerdydd enw da ar lefel ryngwladol am ragori ym maes addysgu ac ymchwil, a hynny ar sail hanes o wasanaeth a chyflawniad ers 1883.

## YMCHWIL FLAENGAR

Mae canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021 yn dangos bod 90% o'r ymchwil a wneir ym Mhrifysgol Caerdydd naill ai'n flaengar yn swyddogol neu'n rhagorol yn rhyngwladol.
Mae'r canlynol yn berthnasol i ni:

- **Ymhlith yr 20 prifysgol orau yn y DU** ar gyfer ansawdd cyffredinol ein hymchwil (19eg), ein heffaith (11eg) a'n hamgylchedd (16eg)
- **Yn y 14eg safle yn y DU** ar gyfer pŵer ymchwil, sy'n dangos maint ac ansawdd ein hymchwil
- **Y brifysgol ymchwil-ddwys fwyaf blaenllaw yng Nghymru**, ar sail safon ei hymchwil, ei phŵer ymchwil, ei heffaith a'i hamgylchedd

## CYMUNED RYNGWLADOL

Gyda mwy na 8,500 o fyfyrwyr rhyngwladol o fwy na 130 o wledydd, byddwch yn rhan o gymuned fywiog sy'n dathlu ei diwylliant amrywiol.

## CAMPWS HARDD YNG NGHANOL Y DDINAS

Mae Caerdydd yn cael ei chydnabod fel un o blith y deg prifysgol harddaf yn y DU (Times Higher Education 2018).
Mae'r campws yng nghanol y ddinas, ac mae Ysgol Busnes Caerdydd wedi'i lleoli'n agos i Barc Bute, sef cartref Castell Caerdydd.


## RHAGOLYGON CYFLOGAETH CRYF

Roedd 94% o'n graddedigion o raglen ôl-raddedig a addysgir naill ai mewn cyflogaeth a/neu'n astudio ymhellach, ar fin dechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill, fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs. Roedd 87% o'n graddedigion a oedd yn gweithio yn y DU mewn cyflogaeth hynod fedrus 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs (Arolwg Hynt Graddedigion HESA, 2020/21*).

## ADDYSGU RHAGOROL

Mae gennym hanes hir o addysgu rhagorol sy'n seiliedig ar ymchwil, ac rydyn ni ymhlith y 40 prifysg orau o ran addysgu rhagorol (Rhestr y Times Higher Education o Brifysgolion Gorau'r Byd 2022).

**↘ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn** cardiff.ac.uk/cy




## MAE UNDEB MYFYRWYR YMHLITH Y DDAU ORAU

Mae ein Hundeb Myfyrwyr sydd wedi ennill gwobrau yn aml yn cael ei dewis yn un o'r gorau yn y DU, ac enillodd safle'r ail orau yng Ngwobrau Dewis y Myfyrwyr WhatUni 2023.

*Cyhoeddwyd canlyniadau arolwg Hynt Graddedigion 2020/21 gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ym mis Gorffennaf 2023.

Yn cynnwys data HESA: Hawlfraint Jisc 2023. Ni all Jisc dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw gasgliadau neu benderfyniadau a wneir gan drydydd partïon ar sail ei ddata.

# Byw yng Nghaerdydd

P’un a ydych yn dewis byw yn un o breswylfeydd y Brifysgol neu lety preifat, rydyn ni am i chi deimlo’n gartrefol yma.

### PRESWYLFEYDD Y BRIFYSGOL

Mae fflatiau dynodedig ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig ar gael ym mhreswylfeydd y Brifysgol, fel bod modd i chi gyfarfod, byw a gweithio ochr yn ochr â phobl debyg sy'n deall gofynion astudiaethau ôl-raddedig. Gwarentir meddiannaeth unigol i fyfyrwyr ôl-raddedig rhyngwladol ym mhreswylfeydd y Brifysgol, a hynny drwy gydol eu cyfnod astudio.

### OPSIYNAU SY’N ADDAS I BAWB

Rydym yn cynnig amrywiaeth o breswylfeydd o safon i fyfyrwyr, sy'n addas ar gyfer dewisiadau a chyllidebau unigol, gan gynnwys llety unigol neu gymysg o ran rhywedd.

### FFORDDIADWY

Mae Caerdydd yn un o'r ddinasoedd prifysgol mwyaf fforddiadwy o blith dinasoedd prifysgol y DU*, sy’n rhywbeth a adlewyrchir yn rhannol yn ein llety prifysgol rhad.

Mae preswylfa hunanarlwyo’n costio rhwng £113 a £157 yr wythnos, tra bo ystafell mewn preswylfeydd wedi’u harlwyo’n rhannol yn costio oddeutu £123 yr wythnos (prisiau 2023/24 ar gyfer preswylfeydd â meddiannaeth unigol).

### LLETY PREIFAT

Mae digonedd o lety ar gael gan landlordiaid preifat yng Nghaerdydd. Rydym yn cynnal digwyddiad chwilio am dŷ ym mis Awst, sy’n rhoi’r cyfle i chi gwrdd â myfyrwyr ôl-raddedig eraill a chwilio am lety preifat i’w rentu ar eich pen eich hun neu fel rhan o grŵp. Mae’r Undeb Myfyrwyr hefyd yn gweithredu ei asiantaeth gosod tai broffesiynol ei hun, sef Cardiff Student Letting, sy’n cynnig tai i fyfyrwyr ar gyfer amrywiaeth o gyllidebau, ac nid yw'n codi ffi asiantaeth.

### HYGYRCH

Mae cysylltiadau trafnidiaeth ardderchog â phrif ddinasoedd eraill – ynghyd â’r ffaith ein bod yn agos i ddau faes awyr rhyngwladol – yn gwneud Caerdydd yn gyrchfan wirioneddol hygyrch.




**↘ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn**
www.cardiff.ac.uk/cy/accommodation

*Ffynhonnell: Mynegai NatWest ar gyfer Costau Byw Myfyrwyr 2023

# Myfyrwyr rhyngwladol

Fel myfyriwr rhyngwladol, gallwch elwa ar ystod o wasanaethau cymorth arbenigol sydd wedi'u cynllunio i wneud y broses o symud i Gaerdydd mor syml â phosibl i chi.

## CANLLAWIAU AR GYFER GWNEUD CAIS

Mae ein tîm rhyngwladol yn cynnig gwasanaeth cyngor pwrpasol i helpu i'ch arwain trwy'r broses o wneud cais i astudio yng Nghaerdydd. Gallwch gysylltu â'n tîm rhyngwladol ar unrhyw adeg cyn, yn ystod ac ar ôl y broses o wneud cais, a byddant yn eich helpu gydag unrhyw gwestiynau a all fod gennych.

## CROESO CYNNES

Rydyn ni'n cynnig gwasanaeth casglu rhad ac am ddim o faes awyr Heathrow cyn i'r flwyddyn academaidd ddechrau. Ar ôl i chi gyrraedd Caerdydd, byddwn ni'n darparu rhaglen sefydlu gynhwysfawr i chi ac yn trefnu gweithgareddau i'ch helpu i ymgartrefu yn eich cartref newydd.

## LLETY WEDI'I WARANTU

Mae Caerdydd yn un o blith nifer bach o brifysgolion yn unig sy'n gwarantu darparu cynnig llety o safon, sydd wedi'i leoli'n gyfleus i fyfyrwyr rhyngwladol unigol.**

## CYNGOR ARBENIGOL

Ochr yn ochr â'r cymorth a ddarperir gan Ysgol Busnes Caerdydd, mae cynghorwyr myfyrwyr rhyngwladol wrth law i'ch cynorthwyo â materion yn cynnwys fisâu, mewnfudo a chyllid.

## CYMORTH IAITH SAESNEG

Mae'r ganolfan addysgu rhaglenni iaith Saesneg yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau. Mae hyd y cyrsiau'n amrywio rhwng wyth wythnos a naw mis ac yn darparu ar gyfer y rhan fwyaf o lefelau a galluoedd ieithyddol.

Mae ein myfyrwyr yn dod o bedwar ban y byd i wella'u Saesneg cyn dechrau astudio mewn prifysgol yn y DU.

Addysgir dosbarthiadau ar y campws gan ein tiwtoriaid iaith Saesneg cymwys a phrofiadol iawn.

- **Rhaglenni cyn-sesiynol yr haf**
  Mae cyrsiau dwys ar gael ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cael cynnig amodol.
- **Rhaglen Astudio Saesneg ar gyfer y Brifysgol:** Rhaglen sgiliau astudio Saesneg llawnamser y gellir ymuno â hi ym mis Medi, mis Ionawr a mis Ebrill.
- **Cymorth iaith Saesneg:**
  Rydyn ni'n darparu cymorth gydag ysgrifennu academaidd, technegau arholiad a sgiliau eraill i'ch helpu yn ystod eich astudiaethau.

**↘ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn**
cardiff.ac.uk/cy/international

** Mae amodau'n berthnasol.

# Opsiynau astudio eraill

Mae MBA Caerdydd yn un o blith amrediad o opsiynau astudio ôl-raddedig seiliedig ar her sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu eich anghenion gyrfaol.

## Rhaglenni ôl-raddedig a addysgir

Mae’r rhaglenni hyn yn cydbwyso gwaith damcaniaethol a chymhwyso gwybodaeth yn ymarferol ac yn paratoi myfyrwyr ar gyfer gyrfaoedd ar draws amrediad o ddisgyblaethau arbenigol busnes a rheoli. Byddwch yn cael eich arwain gan academyddion sydd ar flaen y gad yn eu maes ac yn hyddysg yn yr ymchwil ddiweddaraf.

Mae ein cwricwla seiliedig ar her, sydd â ffocws ar y dyfodol yn cynnwys: cyfrifyddu a chyllid, economeg, rheolaeth, cyflogaeth a threfniadaeth, logisteg a rheoli gweithrediadau, a marchnata a strategaeth.

## Doethuriaeth

Fel myfyriwr Doethuriaeth, rydych wedi'ch integreiddio'n llawn yn ein cymuned ymchwil ac academaidd ddeinamig ac amrywiol.

Byddwn ni’n darparu’r adnoddau, y gefnogaeth a’r cyfleoedd i chi gyfrannu at ddatblygu gwybodaeth a chreu gwerth ac effaith yn eich maes academaidd dewisol.

**↘ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn**
caerdydd.ac.uk/cy/business-school

# Eich camau nesaf

Rydym yn deall bod symud eich addysg ymlaen i lefel ôl-raddedig yn ymrwymiad ariannol sylweddol, felly mae'n syniad da ystyried eich opsiynau ariannu cyn gynted â phosibl.

## YSGOLORIAETH RHAGORIAETH MEISTR

Mae ein cynllun Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Meistr wedi'i gynllunio i gefnogi myfyrwyr o'r radd flaenaf o'r DU a'r UE. Gwnaethom ymrwymo i fuddsoddi hyd at £500,000 yn y cynllun ar gyfer cylch mynediad 2023, gyda phob ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu ar ffurf gostyngiad yn y ffioedd dysgu o £3,000 – gweler ein gwefan am fanylion.

## YSGOLORIAETHAU RHYNGWLADOL

Rydym yn cynnig amrywiaeth o ysgoloriaethau rhyngwladol uchel eu parch sydd wedi'u cynllunio i ddenu a gwobrwyo'r myfyrwyr gorau – gweler ein gwefan am fanylion.

## CYNLLUN GOSTYNGIAD I GYN-FYFYRWYR

Mae holl raddedigion Prifysgol Caerdydd yn gymwys i gael gostyngiad i gyn-fyfyrwyr. Mae'r cynllun yn rhoi gostyngiad o £1,000 yn y ffioedd dysgu i fyfyrwyr cartref, a £2,000 i fyfyrwyr rhyngwladol ac Ewropeaidd – gweler ein gwefan am fanylion.

## CYLLID I FYFYRWYR ÔL-RADDEDIG GAN LYWODRAETH Y DU

Mae benthyciadau i fyfyrwyr ôl-raddedig gan Lywodraeth y DU ar gael i fyfyrwyr o'r DU a'r UE sy'n bodloni'r meini prawf.

Mae gwahanol fenthyciadau'n berthnasol gan ddibynnu ar ble rydych yn byw yn y DU – mae manylion ar gael ar ein gwefan.

## FFYNONELLAU CYLLID YCHWANEGOL

Dylai myfyrwyr rhyngwladol ymchwilio i'r arian a allai fod ar gael gan eu gwlad cartref drwy gysylltu â'r Cyngor Prydeinig a chyrff allanol eraill sy'n cynnig arian.

Mae nifer o elusennau, ymddiriedolaethau a sefydliadau hefyd yn cynnig cyllid ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig.

## FAINT MAE FY NGHWRS YN EI GOSTIO?

Bydd y ffioedd dysgu'n amrywio yn ôl y cwrs y byddwch yn dewis ei astudio, ac yn dibynnu ar b'un a ydych chi'n fyfyriwr o'r DU, neu'n fyfyriwr rhyngwladol.

Mae manylion y ffioedd dysgu a godir ar gyfer rhaglenni unigol ar gael ar wefannau ein cyrsiau.

## EICH CYNNIG

**Cyfweliad:** Byddwn ni'n cyfweld â'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer, naill ai'n wyneb yn wyneb neu drwy alwad fideo,
er mwyn pennu faint o brofiad gwaith sydd ganddynt , a ydynt yn addas i'r rhaglen a pha mor gryf yw eu cymhelliant .

**Amodol:** Bydd angen cyflwyno tystiolaeth ychwanegol. Mae hyn yn golygu tystysgrifau cymhwyster fel arfer.

**Diamod:** Rydych wedi cael cynnig lle – llongyfarchiadau!

**Myfyrwyr y DU / yr UE:** Fel arfer yr oll bydd angen i chi ei wneud yw derbyn eich cynnig.

**Myfyrwyr rhyngwladol:** Bydd angen i chi dderbyn eich cynnig a thalu blaendal i sicrhau eich lle.

## Y BROSES YMGEISIO

**CAM 1**

**Defnyddiwch wefannau ein cyrsiau i nodi'r rhaglen astudio** yr hoffech chi eu dilyn. Gwiriwch y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, y dyddiadau cychwyn a'r gofynion mynediad.

**CAM 2**

**Ymchwiliwch i'ch opsiynau ariannu.**

**CAM 3**

**Cyflwynwch eich cais**.
Gwnewch gais drwy ddefnyddio ein gwasanaeth ymgeisio ar-lein.

Byddwch yn cael cydnabyddiaeth awtomatig o'ch cais a mynediad i'r porth ymgeiswyr ar-lein. Yno gallwch ddilyn hynt eich cais, lanlwytho dogfennau ategol ychwanegol a diweddaru eich manylion.

## RHAGOR O WYBODAETH:

Derbyniadau Ôl-raddedig i Ysgol Busnes Caerdydd

**E-bost:** studybusiness@caerdydd.ac.uk

**Ffôn:** +44 (0)29 2087 9999






# Beth ydych chi'n sefyll drosto?







CADW MEWN CYSYLLTIAD

**Ffôn:** +44 (0)29 2087 9999
**E-bost:** studybusiness@caerdydd.ac.uk
**Gwefan: www.cardiff.ac.uk/cy/business-school**

BusinessCardiff
@CardiffBusiness


Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855

AACSB ACCREDITED

ASSOCIATION OF MBAS ACCREDITED

Rydyn ni wedi argraffu'r llyfryn hwn ar bapur o ffynonellau a reolir yn gynaliadwy a defnyddio inciau a ddaeth o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r llyfryn hwn, a'r broses weithgynhyrchu, ill dau wedi'u hardystio gan yr FSC®. Mae'r argraffwyr wedi'u hachredu yn ôl safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol. Ar ôl defnyddio'r llyfryn hwn, gallwch chi ei ailgylchu, ond ystyriwch ei roi i ffrind neu ei adael yn y llyfrgell gyrfaoedd er gwybodaeth i fyfyrwyr eraill. Diolch.

**GWYBODAETH GYFREITHIOL BWYSIG**

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylch derbyniadau 2024 ac mae'n gywir ar adeg mynd i'r wasg ym mis Hydref 2023. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn hwn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno i ni a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan **www.cardiff.ac.uk/cy** cyn cyflwyno cais rhag ofn y gwnaed unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma. Lle bydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'n gwefan, dylid rhoi blaenoriaeth i gynnwys y wefan, sy'n cynrychioli'r modd yr ydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar i chi.

Eich gradd: Mae myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.


CARBS/1123/75